



At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor
Craffu Partneriaethau

Dyddiad: 13 Rhagfyr 2024

Rhif Union: 01824 712554

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU, DYDD IAU, 19 RHAGFYR 2024** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY GYNHADLEDD FIDEO**.

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

AGENDA

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN CYSYLLTIAD (Tudalennau 5 - 6)

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2024 (copi ynghlwm).

5 STATWS BANER LAS I DRAETHAU SIR DDINBYCH (Tudalennau 15 – 82)

Ystyried adroddiad ar y cyd (copi ynghlwm) gan y Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd a'r Economi ar y gwaith sy'n cael ei wneud gyda sefydliadau partner mewn ymgais i dderbyn achrediad statws baner las ar gyfer cynifer o draethau'r sir â phosibl.

10.05am – 11.30am

EGWYL 11.30am – 11.45am

6 ADRODDIAD BLYNYDDOL GWASANAETHAU CYNLLUNIO AT ARGYFWNG RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU 2023/24 (Tudalennau 83 - 102)

Ystyried adroddiad (copi ynghlwm) gan Bennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Pobl yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cynllunio At Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru 2023/24.

11.45am - 12.15pm

7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO (Tudalennau 103 - 124)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Craffu (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen waith y pwyllgor a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am faterion perthnasol.

12.15pm – 12.30pm

8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Cael y wybodaeth ddiweddaraf gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar Fyrddau a Grwpiau amrywiol y Cyngor.

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Y Cyngorydd Joan Butterfield
(Cadeirydd)

Jeanette Chamberlain-Jones
Kelly Clewett
Bobby Feeley
Jon Harland
Brian Jones

Y Cyngorydd Pauline Edwards (Is-
Gadeirydd)

Terry Mendies
Arwel Roberts
David Williams
Elfed Williams

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo ddydd Iau, 7 Tachwedd 2024 am 10.00am.

YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr Jeanette Chamberlain-Jones, Pauline Edwards (Is-Gadeirydd), Bobby Feeley, Brian Jones, Terry Mendies, Arwel Roberts a/ac David Williams

HEFYD YN BRESENNOL

Y Cyngorydd Elen Heaton, y Cyngorydd Jason McLellan a'r Cyngorydd Barry Mellor. Y Cyfarwyddwr Corfforaethol: yr Amgylchedd a'r Economi (TW), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg (NS), Pennaeth Prifffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol (PJ), Pennaeth Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd (AL), Rheolwr Asedau a Risg (AR), Rheolwr Gwasanaeth – Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaeth Digartrefedd (MR), Cydlynnydd Craffu (RE) a Gweinyddwyr Pwyllgorau (KJ ac ED).

Hedd Vaughan-Evans – Pennaeth Gweithrediadau Uchelgais Gogledd Cymru
David Matthews – Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo, Uchelgais Gogledd Cymru

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cyngorwyr Joan Butterfield (Cadeirydd), Kelly Clewett, Raj Metri ac Elfed Williams.

Dywedodd y Cyngorwyr Jeanette Chamberlain-Jones, Bobby Feeley a Terry Mendies y byddai angen iddynt adael y cyfarfod cyn iddo ddod i ben.

Yn absenoldeb y Cadeirydd, cafodd gweithrediadau'r Pwyllgor eu cadeirio gan yr Is-Gadeirydd.

Cyn bwrw ymlaen â'r materion i'w trafod yn y cyfarfod, dywedodd y Cadeirydd eu bod, ar ôl cyhoeddi'r rhaglen, wedi derbyn cais i newid trefn yr eitemau, fel bod modd trafod yr 'Adroddiad Ymchwiliad i Lifogydd Adran 19 - Storm Babet ar 20 Hydref 2023' (Eitem 6 ar y Rhaglen), cyn 'Adroddiad Blynyddol Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru 2023/24' (Eitem 5 ar y Rhaglen). Rhoddwyd caniatâd ar gyfer y cais hwn a diolchodd y Cadeirydd i'r holl Aelodau Arweiniol, swyddogion allanol a'r Cyngor, am addasu i'r newid hwyr hwn yn nhrefn yr eitemau.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganodd unrhyw aelodau gysylltiad personol, neu gysylltiad personol sy'n rhagfarnu ag unrhyw un o'r eitemau a restrwyd i'w trafod.

3 **MATERION BRYN Y CYTUNWYD ARNYNT GAN Y CADEIRYDD**

Ni thynnwyd sylw'r Cadeirydd at unrhyw eitemau brys cyn dechrau'r cyfarfod.

4 **COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 12 Medi 2024. Felly:

Penderfynodd y Pwyllgor: y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 12 Medi 2024 fel cofnod gwir a chywir o'r gweithrediadau.

Materion yn codi: Eitem Rhif 3 – cadarnhaodd y Cydlynnydd Craffu fod y Cynghorydd Elfed Williams wedi derbyn y dogfennau y bu iddo ofyn amdanant mewn perthynas â'r 'Rhaglen Dreigl – Cymunedau Dysgu Cynaliadwy'. Roedd copiâu wedi'u dosbarthu bellach i holl aelodau'r Pwyllgor fel rhan o'r ddogfen 'Briff Gwybodaeth' yn gynharach yn yr wythnos.

Eitem Rhif 5 – mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Brian Jones ar y sefyllfa bresennol ynghylch yr adolygiad o'r contract ar gyfer monitro gweithgarwch Teledu Cylch Caeëdig yn y Rhyl a threfi eraill yn Sir Ddinbych, cynigiodd y Cynghorydd Arwel Roberts rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r Cynghorydd Jones yn dilyn y cyfarfod.

5 **ADRODDIAD YMCHWILIAD I LIFOGYDD ADRAN 19 - STORM BABET**

Cyflwynodd Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant yr adroddiad (dosbarthwyd ymlaen llaw) i'r cyfarfod. Eglurwyd y cafwyd cyfnod o law trwm iawn ar 20 Hydref 2023 a effeithiodd ar sawl eiddo yng Ngogledd y Sir. Bu Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) a Dŵr Cymru (DCWW) yn ymchwilio i'r hyn a achosodd y llifogydd. Diben yr adroddiad oedd cyflwyno'r canfyddiadau neu eu hymchwiliadau i'r Pwyllgor a gofyn am unrhyw sylwadau gan yr aelodau.

Dywedodd y Rheolwr Asedau a Risg ei fod yn fodlon mynychu holl gyfarfodydd Grwpiau Ardal yr Aelodau ynghylch hynny a rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf. Ychwanegodd Cyfarwyddwr Corfforaethol: yr Amgylchedd a'r Economi fod Storm Babet yn storm sylweddol ac y bu iddi effeithio ar 62 o gartrefi a chwe busnes.

Fel rhan o'r ymchwiliad, cynhaliwyd ymarfer curo drysau i gasglu'r wybodaeth a gyflwynwyd. Nodwyd bod yr adroddiad yn un amlochrog a'i fod yn canolbwyntio ar yr eiddo a effeithiwyd, gan geisio canfod datrysiadau i'r dyfodol. Tynnwyd sylw'r aelodau at Adrannau 7 ac 8 yn yr adroddiad (Atodiad 1 i'r adroddiad), a oedd yn canolbwyntio ar y llifogydd a'r gwelliannau a nodwyd.

Yna, rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau. Awgrymodd yr aelodau y gellid gwneud mwy o waith cynnal a chadw i glirio ffosydd a cheuffosydd. O bosibl y gallai hyn fod wedi atal rhagor o lifogydd. Cafwyd sylwadau gan yr aelodau ynghylch cynnal a chadw'r orsaf bwmpio yn y Rhyl, nad oedd yn ymddangos yn ddigonol.

Ymatebodd y swyddogion gan ddweud fod angen cynnal a chadw asedau Dŵr Cymru a CNC, yn ogystal ag isadeiledd Cyngor Sir Ddinbych. Roedd yr awdurdod yn bwriadu gweithredu system newydd yn lle'r un oedd yn cael ei defnyddio ar y pryd i logi contractwyr unigol i glirio manau gwyrdd a chyflwyno system fwy ad-hoc, a fyddai'n nodi manau problemus ac yn mynd i'r afael â'r mater felly. Roedd yn bwysig nodi hefyd nad oedd yr awdurdod wedi rhoi'r gorau i glirio ffosydd. Roedd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni ar sail risg.

Trafodwyd hefyd rôl ffermwyr o ran cyfrannu at y gwaith o gynnal a chadw'r ffosydd a'r ceuffosydd hyn sydd wrth ymyl eu tir. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol fod angen gwneud mwy o waith gyda ffermwyr a thirfeddianwyr, mewn ymgais i ddatblygu gwell perthnasoedd, er mwyn ceisio gwella'r problemau hyn, ond roedd hyn wedi profi'n her yn y gorffennol. Gofynnodd yr aelodau pa mor barod oedd ffermwyr i gydweithio a chyfrannu at y gwaith o gynnal a chadw gwrychoedd a ffosydd, er enghraifft. Nodwyd ei bod yn sefyllfa anodd. Roedd y Rheolwr Asedau a Risg blaenorol wedi ceisio mynd i'r afael â hyn, a chynyddu ymgysylltiad â'r undebau amaethwyr mewn ymgais i ddwyn pwysau ar y mater, ond yn y pen draw, er ei fod yn effeithio ar isadeiledd CSDd, roedd yn dir preifat. Ni allai'r Cyngor gael mynediad i unrhyw dir neu eiddo preifat heb ganiatâd y perchennog, felly roedd hi'n sefyllfa hynod anodd ei rheoli.

Mynegodd yr aelodau bryderon ynghylch archwiliadau o fyndiau afonydd, y gwaith o'u cynnal a'u cadw, a chydweithrediad CNC a Dŵr Cymru mewn perthynas â hyn. Gofynnwyd pryd y cafodd y byndiau hyn eu harchwilio ddiwethaf ac os nad oeddent wedi cael eu harchwilio, a allai hynny fod wedi achosi llifogydd difrifol. Nodwyd nad oedd yr union amserlen ar gyfer archwilio pob bwnd yn hysbys, ond bu i'r swyddogion gynnig adrodd yn ôl i'r aelodau ynghylch pa mor aml roedd hyn yn cael ei wneud. Dywedodd y swyddogion fod yr awdurdod yn cysylltu â Dŵr Cymru a CNC yn rheolaidd ynghylch cynnal a chadw'r holl asedau perygl llifogydd a rhoddwyd sicrwydd iddynt gan y ddau sefydliad bod gwaith cynnal a chadw rheolaidd yn cael ei wneud ar eu hasedau. Roedd y swyddogion yn brysur yn cysylltu â thrydydd partion, ond roedd gan y sefydliadau hyn eu cyfyngiadau cyllidebol eu hunain.

Dywedodd y swyddogion fod gwaith ataliol yn cael ei wneud a bod y gwaith hwn yn cynnwys archwilio ceuffosydd ledled y sir, yn enwedig y rhai sy'n agos at fannau lle bu llifogydd yn y gorffennol. Cyn gynted ag y derbyniwyd rhybuddion tywydd, bu i'r swyddogion ymweld â'r manau problemus hysbys hyn. Roedd yr awdurdod wedi buddsoddi mewn meddalwedd newydd a oedd yn ei alluogi i gasglu proffil ar gyfer pob ased isadeiledd. Byddai proffil data pob ased a gedwir ar y system hon yn llywio asesiadau risg llifogydd y Cyngor ym mhob ardal. Dros amser, po fwyaf o ddata a gasglwyd, y mwyaf cywir y gallai'r Cyngor nodi manau problemus mewn modd mwy clir a chyflym.

Rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau gan y swyddogion y byddai'r camau datblygu, cynllunio ac ymgynghori yn cynnwys asesiadau risg llifogydd ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) newydd y Cyngor.

Pwysleisiodd yr Aelodau yr angen i sefydlu a chefnogi Grwpiau Llifogydd gwirfoddol lleol ac roedd y rhain yn rhwydweithiau gwerthfawr i helpu trigolion i gynllunio ac ymdrin â llifogydd.

Ar ddiwedd trafodaeth fanwl, ac yn amodol ar y swyddogion yn trafod materion cysylltiedig â stad Maes y Gog yn y Rhyl gyda'r aelod lleol:

Penderfynodd y Pwyllgor:

- (i) gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r gwelliannau neu'r arferion gwaith diwygiedig a nodir yn yr adroddiad, gan geisio eu lliniaru yn erbyn y perygl o lifogydd yn y sir yn y dyfodol; a***
- (ii) chyflwyno ffurflen Cynnig Craffu Aelodau i'r aelodau Pwyllgor perthnasol i'w llenwi gyda'r bwriad o wahodd cynrychiolwyr o Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i un o'r cyfarfodydd yn y dyfodol, er mwyn trafod materion yn ymwneud â llifogydd.***

6 ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD UCHELGAIS GOGLEDD CYMRU 2023/24

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor yr adroddiad, yn ei rôl fel yr Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd (dosbarthwyd ymlaen llaw) ac eglurodd fod hwn yn adroddiad blynyddol a gyflwynwyd gerbron y Pwyllgor. Dywedwyd mai nod y Bwrdd oedd denu buddsoddiad yn y sector preifat drwy'r prosiectau hyn a sicrhau swyddi o ansawdd uchel yng Ngogledd Cymru. Nodwyd mai dyma'r trydydd adroddiad yn y cynllun fesul 15 mlynedd. Diolchodd yr Aelod Arweiniol hefyd i'w ragflaenydd, y Cynghorydd Hugh Evans, am ei holl waith yn ystod y tymor blaenorol.

Rhannodd y Pennaeth Gweithrediadau a'r Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo gyflwyniad PowerPoint a oedd yn dangos yr holl waith a gyflawnwyd gan y Bwrdd Uchelgais yn ei drydedd flwyddyn ac ers ei sefydlu. Roedd y cyflwyniad hwn yn pwysleisio mai nod Uchelgais Gogledd Cymru oedd gwireddu rhanbarth hyderus a chydlynol drwy ganolbwyntio ar wella ffactorau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Gogledd Cymru. Roedd prosiectau a hwyluswyd gan y Bwrdd yn canolbwyntio ar nifer o themâu gwahanol, gan gynnwys iaith, diwylliant a threftadaeth. Roedd pump o feysydd y rhaglen yn cynnwys cyfanswm o 23 prosiect a tharged o £1 biliwn, mewn ymgais i greu dros 4,000 o swyddi newydd yng Ngogledd Cymru. Yn ystod 2023-24, roedd dau brosiect allweddol wedi gwneud cynnydd sylweddol ac roedd pum prosiect newydd arall wedi ymuno â'r Fargen Dwf, ac mae manylion pob un ohonynt i'w cael yn yr adroddiad.

Rhoddyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau, a chafwyd rhai ynghylch hen safle Ysbyty Gogledd Cymru. Awgrymodd yr aelodau nad oedd llawer o waith wedi'i wneud mewn perthynas â hyn. Dywedodd y swyddogion wrth yr aelodau nad oedd hynny'n wir a bod y Gronfa Ffyniant Bro wedi'i sicrhau. Er bod y newid o ran llywodraeth wedi arwain at oedi anorfod mewn perthynas â'r cyhoeddiad ynghylch cyllid, roedd gwaith wedi parhau y tu ôl i'r llen, er enghraifft, bu i'r Bwrdd gymeradwyo'r Cynllun Busnes Amlinellol a gyflwynwyd gan Jones Brothers. Dywedodd y swyddogion, yn amodol ar ganiatâd cynllunio, y byddai llawer o gartrefi newydd yn ogystal ag eiddo masnachol yn cael eu hadeiladu ar y safle. Roedd

Jones Brothers eisoes yn recriwtio a chynnig prentisiaethau a chynlluniau i raddedigion a phobl ifanc, ac roedd y cwmni wedi symud ei adran hyfforddi i'r safle.

Gwaith arall a wnaed o ran hen Ysbyty Gogledd Cymru oedd sicrhau bod dogfennau cyfreithiol ar waith megis adran 106 a pharatoadau i drosglwyddo'r tir a'r adeiladau yn gyfreithlon o'r awdurdod lleol i Jones Brothers. Roedd ystlumod hefyd yn bresennol ar y safle, felly bu'n rhaid creu trwyddedau a chyfleusterau perthnasol i ystlumod. Mae'r camau nesaf wedi'u cynnwys er mwyn rheoli'r gwaith o ddymchwel rhannau o'r safle ac ymdrin â'r asbestos sydd yno. Dywedodd y swyddogion eu bod nhw'n ceisio diogelu a gwneud gwelliannau i'r prosiect lle bo modd, yn ogystal â sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei chynnal.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau am gyflogaeth o ran y prosiect hwn. Mewn perthynas â chyflogaeth llawn amser, nodwyd bod disgwyl i 70 o swyddi llawn amser fod ar gael ar y safle yn ystod cam datblygu'r prosiect, ond o ran gwaith adeiladu a phrentisiaethau, dywedwyd y byddai o leiaf 300 o swyddi'n cael eu creu, ac roedd posibilrwydd i'r ffigur hwnnw fod yn fwy fyth.

Cododd yr aelodau gwestiynau ynghylch diffyg twristiaeth a chlodiant yn y Rhyl, yn arbennig o ran y cysylltiadau trên. Rhannwyd y wybodaeth ganlynol â'r aelodau:

- roedd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi penderfynu na ddylid cynnwys cludiant yn y Fargen Dwf, felly nid oedd y Cynllun yn ymdrin â materion cludiant.
- Er nad oedd gan y Bwrdd rôl ffurfiol mewn perthynas â'r Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig yng Ngogledd Ddwyrain Cymru, roedd ei uchelgais Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth yn cefnogi gwella sgiliau twristiaeth ar draws pob maes ac yn hwyluso gwaith hyfforddi ac ailhyfforddi a fyddai'n canolbwyntio ar wella hyn.

Yn dilyn trafodaeth fanwl:

Penderfynodd y Pwyllgor: yn amodol ar y sylwadau uchod, dderbyn a chymeradwyo'r cynnydd a wnaed gan Fwrdd Uchelgais Gogledd Cymru yn ystod Chwarter 4 a blwyddyn ariannol 2023/24, wrth gyflawni trydedd flwyddyn Bargaen Dwf Gogledd Cymru.

Gohiriwyd y Pwyllgor am egwyl am 11:55am a bu iddynt ailymgynnull am 12pm.

Gan fod nifer o aelodau wedi gadael y cyfarfod erbyn y pwynt hwn, nid oedd cworwm gan y Pwyllgor ar gyfer llunio argymhellion. O ganlyniad, cytunodd yr aelodau hynny a oedd yn dal yn bresennol i barhau i drafod gweddill yr eitemau gan y Pwyllgor yn anffurfiol.

7 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR DDIOGELU OEDOLION YN SIR DDINBYCH 2023/24

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol yr adroddiad (dosbarthwyd ymlaen llaw) i'r cyfarfod a thynnodd sylw at y perfformiad cadarn

oedd i'w weld drwy'r adroddiad, gan gynnwys amseroedd ymateb da o ran ymholiadau adran 126, lle pennwyd targed o 7 diwrnod gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ymdrin ag ymholiadau o'r fath. Roedd y Cyngor wedi cyflawni'r targed hwn drwy ymdrin â 98.5% o'r 409 o ymholiadau a dderbyniwyd.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth y bu'n flwyddyn brysur i'r Tîm Diogelu Oedolion. Cafodd cyfradd o 98.5% o atgyfeiriadau diogelu eu gwneud o fewn y cyfnod 7 diwrnod. Cafodd sawl archwiliad ei gynnal a'i graffu, ac er y cynnydd o ran y llwyth gwaith, daliwyd ati â safon uchel y gwaith. Tynnwyd sylw at ymholiadau Adran 5 sy'n cyfeirio at 'unigolion mewn swyddi cyfrifol' a'r rhesymau dros y cynnydd. Nodwyd nad oedd y mater hwn yn unigryw i Sir Ddinbych. Roedd y cynnydd i'w weld ar draws y rhanbarth ac yn deillio o'r cynnydd yng nghymhlethdod anghenion cleientiaid, yn ogystal â'r ffaith bod mwy o ymwybyddiaeth o ran pwysigrwydd atgyfeirio.

Yna, rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau.

Holodd yr aelodau a oedd gofalmwr gwirfoddol/ di-dâl/ teuluol yn cael eu monitro gan y Tîm Diogelu. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd nad oedd y tîm yn ymwneud â gofalmwr teuluol, oni bai bod hynny o safbwynt diogelu, er enghraifft pe bai cymydog yn codi pryderon. Eglurwyd bod y tîm yn dibynnu ar unigolion i adrodd am yr achosion hyn os bydd pryderon ynghylch unrhyw fath o gamdriniaeth.

Cwestiynwyd y cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau gan aelodau ac a oedd digon o staff ar gyfer y llwyth gwaith. Roedd y swyddogion yn pwysleisio nad oedd hyn yn unigryw i Sir Ddinbych a rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau bod yna ddigon o staff i ddelio â'r cynnydd hwn. Pwysleisiwyd hefyd, er bod yr Heddlu yn brysur yn ymdrin ag ymchwiliadau cychwynnol, nad oedd pob atgyfeiriad yn datblygu i ymchwiliad llawn. Nid oedd cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau yn golygu cynnydd cyfatebol yn nifer yr ymchwiliadau llawn. Rhagwelwyd, unwaith y byddent ar gael, y byddai'r Canllawiau diwygiedig 'Unigolion mewn Swyddi Cyfrifol' yn cynnig cymorth pellach gyda'r ymchwiliad i atgyfeiriadau Adran 5.

Bu i'r Aelodau longyfarch y Tîm Diogelu am eu hymdrechion i sicrhau bod oedolion diamddiffyn yn Sir Ddinbych yn cael eu diogelu rhag niwed ac:

Argymhellwyd: yn amodol ar y sylwadau uchod, bod y Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd ymagwedd gorfforaethol at ddiogelu oedolion mewn perygl a chyfrifoldeb y Cyngor i'w ystyried fel maes blaenoriaeth allweddol.

8 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu'r adroddiad a'r atodiadau (dosbarthwyd ymlaen llaw) oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu ei raglen waith.

Yn ystod ei chyflwyniad, dywedodd fod yr adroddiad 'Canolfannau Ailgyrchu Gwastraff y Cartref' a oedd fod i gael ei gyflwyno yn y cyfarfod hwn, wedi'i aildrefnu ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ym mis Chwefror 2025, oherwydd pwysau o fewn y

gwasanaeth adrodd. Roedd dwy eitem wedi'u rhestru i'w cyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 19 Rhagfyr 2024:

- Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru 2023/24; a
- Statws Baner Las i Draethau Sir Ddinbych

Roedd y Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu (GCIGC) wedi trefnu i gynnal ei gyfarfod nesaf ar 25 Tachwedd a chafodd yr aelodau eu hatgoffa i lenwi a dychwelyd y Ffurflen Cynnig Aelodau yn Atodiad 2 yn yr adroddiad, os oedd ganddynt unrhyw faterion yr oeddent o'r farn y dylid craffu arnynt. Yn Atodiad 3 yn yr adroddiad, roedd copi o raglen waith y Cabinet er gwybodaeth i'r aelodau, ac roedd Atodiad 4 yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y cynnydd hyd yma o ran argymhellion y Pwyllgor o'i gyfarfod blaenorol. Roedd y ddogfen Briff Gwybodaeth a ddosbarthwyd i aelodau'r Pwyllgor yn gynharach yn yr wythnos yn cynnwys y wybodaeth ychwanegol y bu i'r aelodau ofyn amdani yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor ynghyd ag Adroddiadau Gwybodaeth. Felly,

Argymhellodd: yr aelodau: yn amodol ar yr uchod, bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei raglen waith fel y nodir yn Atodiad 1 yn yr adroddiad.

9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.10pm

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adrodd i'r	Pwyllgor Craffu Partneriaethau
Dyddiad y cyfarfod	19 Rhagfyr 2024
Aelod Arweiniol / Swyddog	Barry Mellor: Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant, Paul Jackson: Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol
Awdur yr Adroddiad	Paul Jackson: Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol / Tony Ward: Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Amgylchedd a'r Economi
Teitl	Statws Baner Las i Draethau Sir Ddinbych

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn sôn am statws Baner Las i draethau Sir Ddinbych.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Ar gais y Pwyllgor, bydd yr adroddiad hwn yn galluogi Aelodau i graffu ar waith sy'n cael ei wneud gyda sefydliadau partner mewn cais i ennill achrediad statws Baner Las ar gyfer cynifer ag sy'n bosibl o draethau'r sir.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn nodi'r gwaith sy'n cael ei wneud gyda sefydliadau partner a gwneud sylwadau ac argymhellion fel bo'n briodol.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Mae Gwobrau Arfordir Cymru yn chwarae rôl allweddol wrth amddiffyn ein hamgylchedd forol ac maent yn cael eu cydnabod o amgylch y byd fel symbol o ansawdd. Credir mai gwobr traeth y Faner Las ydi'r safon aur ar gyfer traethau. Yng Ngwobrau Faner Las 2024, cafodd 184 o Faneri Glas eu dyfarnu yn Ynysoedd Prydain

(DU ac Iwerddon). Dyfarnwyd 21 o Faneri Gas yng Nghymru, a dim ond 1 yng ngogledd Cymru (Canol Prestatyn). Mae'r broses ardystio yn cael ei chynnal bob blwyddyn a gall traethau ennill neu golli eu statws Baner Las.

4.2. Er bod y mwyafrif o bobl yn gwybod bod ardystiad y Faner Las yn ystyried ansawdd y dŵr ymdrochi, dim ond rhan o'r meini prawf ydi hynny. Caiff meini prawf y Faner Las eu rhannu mewn i bedwar categori gyda chyfanswm o 33 targed unigol. Mae'r 33 maen prawf unigol o dan y pedwar categori wedi'u crynhoi yn Atodiad A, ac mae eglurhad llawn wedi'i roi yn Atodiad B: Meini Prawf Traeth y Faner Las a Nodiadau Eglurhaol, 2024 Y pedwar prif gategori yw:

- **Addysg a Gwybodaeth Amgylcheddol:** Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am ddyfarniad y Faner Las ynghyd â manylion am ansawdd y dŵr. Mae'n rhaid arddangos map sy'n cynnwys lleoliadau cyfleusterau hefyd.
- **Ansawdd dŵr:** Yr amod pwysicaf yw na ddylai gwastraff diwydiannol, dŵr gwastraff na gwastraff sy'n gysylltiedig â charthffosiaeth effeithio'r traeth.
- **Rheoli'r Amgylchedd:** Mae'r meini prawf yma'n cynnwys yr ochr weinyddol o bethau yn ogystal â chadw'r traeth yn lân. Mae hefyd yn nodi y dylai fod yna doiledau cyhoeddus ar gael.
- **Diogelwch a Gwasanaethau:** Fe ddylai achubwyr bywyd batrolïo'r traeth. Mae meini prawf arall yn cynnwys argaeledd dŵr yfed a nodweddion hygrych.

4.3. Un o feini prawf statws 'Y Faner Las' yw bod angen i ansawdd y dŵr fod yn 'Ardderchog', ac felly ni all traeth gyflawni statws Y Faner Las oni bai bod ansawdd y dŵr yn 'Ardderchog' (hyd yn oed os ydyw'n bodloni'r holl feini prawf eraill).

4.4. Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ydi'r asiantaeth arweiniol o ran rheoleiddio i amddiffyn ansawdd dŵr ymdrochi. Mae CNC yn gyfrifol am reoleiddio asedau Dŵr Cymru a gweithio gyda nhw ar fesurau rhagweithiol i atal bacteria o garthffosydd rhag effeithio ar ansawdd dŵr ymdrochi. Mae CNC hefyd yn rheoleiddio ac yn gweithio gyda'r sector amaeth. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae CNC wedi canolbwyntio adnoddau ar ariannu cynlluniau i leihau bacteria gan dda byw yn afon isaf Clwyd. Mae crynodeb o waith/rôl CNC mewn cysylltiad ag ansawdd dŵr ymdrochi ynghlwm yn Atodiad C. Mae crynodeb tebyg sy'n ymwneud â gwaith/rôl Dŵr Cymru wedi'i gynnwys yn Atodiad D.

- 4.5. Mae gan Sir Ddinbych 4 man dŵr ymdrochi cydnabyddedig, mae 3 ohonynt yn Draethau Ymdrochi dynodedig (Canol y Rhyl, Dwyrain y Rhyl a Phrestatyn). Y Dŵr Ymdrochi dynodedig arall yw Marine Lake yn Y Rhyl.
- 4.6. Canol Prestatyn ydi'r unig Draeth Ymdrochi dynodedig yn Sir Ddinbych i gyflawni dosbarthiad 'Ardderchog' ar gyfer ansawdd dŵr. Felly dyma'r unig draeth yn Sir Ddinbych i ennill statws y Faner Las. Sawl blwyddyn yn ôl, defnyddiodd CSDd sampl o ddyfroedd ymdrochi yn Splash Point, Ffrith, Barkby a Gronant. Roedd yn credu efallai y bydd yna gyfle i Draeth Barkby gael statws Y Faner Las yn y dyfodol.
- 4.7. Roedd Gwobrau Arfordir Cymru 2024 wedi'u seilio ar ddsbarthiadau ansawdd dŵr 2023. Fe gyflawnodd Prestatyn ddsbarthiad 'Ardderchog' ar gyfer ansawdd dŵr yn 2023, gan alluogi iddo gadw statws y Faner Las yng Ngwobrau Arfordir Cymru 2024. Fe fydd Gwobrau Arfordir Cymru 2025 yn cael eu seilio ar ddsbarthiadau ansawdd dŵr 2024 a fydd yn cael eu cyhoeddi'n ffurfiol ym mis Rhagfyr 2024. Yn anffodus, yn dilyn canlyniadau â lefelau uchel mewn samplau y tymor yma, mae Prestatyn wedi disgyn dosbarthiad ac fe fydd bellach yn derbyn dosbarthiad 'Da' ar gyfer y dŵr ymdrochi. Gan fod angen ansawdd dŵr 'Ardderchog' ar gyfer statws Y Faner Las, ni fydd Prestatyn yn cadw ei Faner Las yn 2025. Fe fydd Gwobr Glan y Môr yn disodli'r Faner Las ar gyfer Prestatyn. Bydd ddsbarthiadau newydd ar gyfer ansawdd Dŵr Ymdrochi yn Sir Ddinbych fel a ganlyn:

	Canol y Rhyl	Dwyrain y Rhyl	Marine Lake	Prestatyn
2023/24	DIGONOL	DA	DIGONOL	ARDDERCHOG
2024/25	GWAEL	DA	DA	DA

- 4.8. Fe fydd hi'n anodd i'r Rhyl fyth gyflawni statws Y Faner Las, o ystyried yr agosatrwydd at Afon Clwyd a'i aber, a dyma'r prif broblem o ran ansawdd dŵr ymdrochi. Mae gollyngfeydd carthffosiaeth yn un o ddau brif ffactor sydd yn gallu effeithio ar ansawdd dŵr. Mae'r isadeiledd carthffosiaeth yn yr ardal wedi cael ei ddylunio i sicrhau bod Rhyl yn cyflawni statws 'Digonol', sydd yn bell iawn o statws 'Ardderchog' sydd ei angen ar gyfer statws Y Faner Las. Mae yna lawer o ffermio yn Nyffryn Clwyd hefyd,

a gall mynediad y da byw at y nentydd fod yn ffynhonnell sylweddol o facteria sydd yn effeithio ansawdd y dŵr.

- 4.9. Nid yr anallu i gyflawni statws y Faner Las yw'r broblem fwyaf i'r Rhyl, ond y ffaith y bydd Canol y Rhyl bellach yn cael ei ddsbarthu fel dŵr ymdrochi 'Gwael' ar gyfer 2025 yn dilyn nifer o samplau â lefelau uchel y tymor hwn. Mae hyn yn golygu y dylid cyngori pobl i beidio ag ymdrochi yn yr ardal honno nes bod y dosbarthiad yn dychwelyd i 'Digonol'. Caiff yr asesiad ei wneud yn flynyddol gan ddefnyddio set data pedair blynedd. Ar ddiwedd tymor 2025, fe fydd data 2021 yn cael ei dynnu o'r asesiad. Gan fod data 2021 yn cynnwys rhywfaint o ganlyniadau gwael, mae Canol y Rhyl yn debygol o ddychwelyd i 'Digonol' mewn 12 mis.
- 4.10. Roedd diwygiad Cyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi 2015 yn adolygu'r terfynau ar gyfer lefelau derbyniol o facteria, a golygodd hyn bod y mwyafrif o draethau wedi symud o 'Ardderchog' i 'Da' ac o 'Da' i 'Digonol', fel sydd wedi digwydd yng Nghanol y Rhyl. Ers 2015, mae Canol y Rhyl wedi bod mewn perygl o ddisgyn i statws 'Gwael', ond mae defnyddio Darogan a Thynnu pan mae daroganau ansawdd dŵr dyddiol yn cael eu cyhoeddi yn caniatáu i hyd at 15% o ganlyniadau samplau gael eu tynnu o'r set data. Mae hyn wedi bod yn allweddol i atal Canol y Rhyl rhag disgyn i statws 'Gwael' cyn rŵan.
- 4.11. Nid yw'r problemau yng Nghanol y Rhyl mor amlwg yn Nwyrain y Rhyl, gan fod y rhan yna o'r traeth yn bellach i ffwrdd o Afon Clwyd a'i aber. Mae hyn yn golygu llai o effaith ar samplau ansawdd dŵr Dwyrain y Rhyl na Chanol y Rhyl, a bydd Dwyrain y Rhyl yn cadw ei statws 'Da' ar gyfer 2025. Felly er y bydd pobl yn cael cyngor i beidio ag ymdrochi yn y dŵr yng Nghanol y Rhyl, nid dyma fydd y cyngor ymhellach i lawr y traeth yn Nwyrain y Rhyl. Mae'r ardal o draeth sydd wedi'i ddynodi yn Ddwyrain y Rhyl yn dechrau ger gorsaf y bad achub ac yn ymestyn i'r dwyrain tuag at Splash Point.
- 4.12. Mae Tîm Harbwr CSDd yn gweithio gyda Dŵr Cymru a CNC i dynnu sylw at gyfnodau o ansawdd dŵr sydd ddim cystal, gan roi arwyddion allan pan fyddant yn cael gwybod y bydd ansawdd y dŵr yn gostwng. Mae Tîm yr Harbwr wedi gweithio'n agos gyda Dŵr Cymru a CNC i gael ansawdd dŵr gwell yn Marine Lake drwy fuddsoddi mewn system llifddor newydd a gweithio gyda Dŵr Cymru i osod system gau awtomatig ar y llifddor sy'n gysylltiedig â system gollyngfa brys ar Orsaf Bwmpio Westbourne Avenue. Mae Tîm yr Harbwr yn gyfrifol am ymgeisio am wobrau'r arfordir a sicrhau gydag adrannau eraill bod yr holl feini prawf yn cael eu bodloni. Yr unig faen prawf sydd y tu

hwnt i'n rheolaeth yw ansawdd y dŵr ac felly ein rôl yw herio (a chynorthwyo lle y bo'n bosibl) Dŵr Cymru a CNC i ymgymryd â gwaith a mentrau i wella safonau ansawdd y dŵr.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Mae gwobrau ansawdd dŵr ymdrochi a thraeth yn cyfrannu'n bennaf at y ddwy thema Cynllun Corfforaethol canlynol: "Sir Ddinbych Ffyniannus", a "Sir Ddinbych Mwy Gwyrdd".

6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes yna gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad yma heblaw am amser swyddog yn rheoli effeithiau asesiadau ansawdd dŵr a gweithio gyda sefydliadau partner, ac fe ellir cynnwys hyn o fewn adnoddau presennol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes unrhyw Asesiad o'r Effaith ar Les wedi'i gynnal eto.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Nid oes ymgynghoriad arall wedi cael ei wneud cyn cyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oedd angen rhai ar gyfer yr adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

- 10.1. Mae yna risg na fydd pobl awydd ymweld â thraethau Sir Ddinbych yn sgil gostyngiadau yn y dosbarthiadau ar gyfer ansawdd dŵr ymdrochi yng Nghanol y Rhyl a Chanol Prestatyn, a cholli statws y Faner Les ym Mhrestatyn.
- 10.2. **Y Rhyl:** Fe fydd Dwyrain y Rhyl yn cael ei ddynodi yn draeth ymdrochi ar gyfer 2025 sydd gyferbyn â chaffi Kite Surf a allai fod o fudd i'r ardal yma o'r promenâd yn sgil y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr. Fe fydd datganiadau i'r wasg yn cael eu cyhoeddi yn nes at yr amser i hysbysu'r cyhoedd o'r newid i'r ardal dŵr ymdrochi, a bydd arwyddion yn cael eu gosod ar hyd y promenâd. Yn ystod y cyfnodau prysuraf, bydd achubwyr bywyd yr RNLi wedi'u lleoli'n strategol ar lan y môr y traeth dŵr ymdrochi a byddant wedi'u marcio gydag uned achub bywyd.
- 10.3. **Prestatyn:** Fe fydd Canol Prestatyn yn colli ei statws Baner Las ar gyfer 2025 ac yn ei le fe fydd yn cael Gwobr Glan y Môr Cadwch Gymru'n Daclus, fe fydd yr holl isadeiledd yn cael ei gadw, bydd achubwyr bywyd yn bresennol, ni fydd y traeth dŵr ymdrochi'n cael ei effeithio.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

- 11.1. Adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7 o Gyfansoddiad y Cyngor.

Appendix A: Summary of the 33 individual Blue Flag Beach criteria under the four categories

A. ENVIRONMENTAL EDUCATION AND INFORMATION

1. Information about the Blue Flag Programme must be displayed.
2. Environmental education activities must be offered and promoted to beach users.
3. Information about bathing water quality must be displayed.
4. Information relating to local eco-systems, environmental elements and cultural sites must be displayed.
5. A map of the beach indicating different facilities must be displayed.
6. A code of conduct that reflects appropriate laws and/or regulations governing the use of the beach and surrounding areas must be displayed.

B. WATER QUALITY

The Blue Flag Programme requires that beaches achieve Excellent bathing water quality.

7. The beach must fully comply with the water quality sampling and frequency requirements.
8. The beach must fully comply with the standards and requirements for water quality analysis.
9. Industrial, waste-water or sewage-related discharges must not affect the beach area.
10. The beach must comply with the Blue Flag requirements for the microbiological parameter *Escherichia coli* (faecal coli bacteria) and intestinal enterococci (streptococci).

11. The beach must comply with the Blue Flag requirements for physical parameters (i.e. it must not be affected by physical and chemical parameters, such as oil and floatables).

C. ENVIRONMENTAL MANAGEMENT

12. The local authority/beach operator should establish a beach management committee.
13. The local authority/beach operator must comply with all laws and/or regulations affecting the location and operation of the beach.
14. Sensitive areas must be managed (some sites at/near the Blue Flag beach may be very sensitive and require special management).
15. The beach must be clean.
16. Algal vegetation (e.g. seaweed) or natural debris must be left on the beach.
17. Waste disposal bins/containers must be available at the beach in adequate numbers, and they must be regularly maintained.
18. Facilities for the separation of recyclable waste materials must be available at the beach.
19. An adequate number of toilet or restroom facilities must be provided.
20. The toilet or restroom facilities must be kept clean.
21. The toilet or restroom facilities must have controlled sewage disposal.
22. There must be no unauthorised camping or driving and no dumping on the beach
23. Access to the beach by dogs and other domestic animals must be strictly controlled.
24. All buildings and beach equipment must be properly maintained.

25. Marine and freshwater sensitive habitats (such as coral reefs or seagrass beds) in the vicinity of the beach must be monitored.
26. A sustainable means of transportation should be promoted in the beach area¹.

D. SAFETY AND SERVICES

27. Appropriate public safety control measures must be implemented.
28. First aid equipment must be available on the beach.
29. Emergency plans to cope with pollution risks must be in place.
30. There must be management of different users and uses of the beach so as to prevent conflicts and accidents.
31. There must be safety measures in place to protect users of the beach, and free access must be granted to the public.
32. A supply of drinking water should be available at the beach¹
33. At least one Blue Flag beach in each municipality must have access and facilities provided for the physically disabled.

¹ Guidance only

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



BLUE FLAG BEACH CRITERIA AND EXPLANATORY NOTES 2024

INTRODUCTION

The Blue Flag Programme for beaches, marinas and tourism boats is run by the international, non-governmental, non-profit organisation FEE (the Foundation for Environmental Education). The Blue Flag Programme started in France in 1985. It has been implemented in Europe since 1987 and in areas outside of Europe since 2001 when South Africa joined. Today, Blue Flag has become a truly global Programme, with an ever-increasing number of countries participating in it.

The Blue Flag Programme promotes sustainable development in freshwater and marine areas. It challenges local authorities and beach operators to achieve high standards in the four categories of water quality, environmental management, environmental education and safety. Over the years, the Blue Flag has become a highly respected and recognised award working to bring together the tourism and environmental sectors at local, regional and national levels.

The explanatory notes given in this document make up the common and shared understanding of the Blue Flag beach criteria and the requirements for the implementation thereof. The explanatory notes provide details on the assessment and management of compliance with the Blue Flag beach criteria.

The criteria are categorised as either imperative or guideline. Most beach criteria are imperative, i.e. the beach must comply with them in order to be awarded the Blue Flag. If they are guideline criteria, it is preferable that they are complied with, but not mandatory.

It must be emphasised that the Blue Flag beach international criteria in this document are the minimum criteria. A National Operator can choose to have stricter criteria to what is outlined here, as long as they are in the same line of philosophy as the Blue Flag international criteria. These more stringent criteria must be approved by the National Jury and communicated to the International Jury. Moreover, the beach administrator must be informed about the stricter criteria before the beginning of the following Blue Flag season.

These beach criteria and explanatory notes are to be used by all Blue Flag applicants in order to understand the requirements that must be met before a beach can receive the Blue Flag award. For guidance purposes, this document should also prove valuable for the management of those beaches already accredited with Blue Flag status. The beach criteria and explanatory notes also serve as a guide for the National, Regional and International Blue Flag Juries when making decisions about a Blue Flag beach candidate.

During the Blue Flag season, the flag must fly at the beach. The flag is both a symbol that the beach participates in the Programme but also an indication of compliance with the criteria. The flag may either be flown 24 hours a day during the Blue Flag season or only during the hours when the beach meets all the Blue Flag criteria. In the case of the former, there must be adequate signage indicating the time when services (e.g. life-saving), and facilities (e.g. toilets) are in operation.

If a beach that has the Blue Flag award does not comply with the Blue Flag criteria, the flag may be permanently or temporarily withdrawn from the beach. There are several degrees of non-compliance:

1. A **minor non-compliance** occurs when there is a problem with only one imperative criterion, which is of little or no consequence to visitor health and safety and the beach environment.

Should the non - compliance be to the detriment of visitor health and safety or the beach environment, it must be treated as major non - compliance.

When minor non-compliance occurs and can be immediately rectified, the flag is not withdrawn, and the non-compliance is only registered in the control visit report. If, however, a minor non-compliance cannot be rectified immediately, the beach is given ten days in which to comply fully with all criteria. The flag is withdrawn until all problems are rectified, and this is noted on the Blue Flag national and international websites.

2. **Multiple non-compliance** relates to non-compliance with two to three imperative criteria which are of little or no consequence to visitor health and safety and the beach environment.

Should any on the non - compliance be to the detriment of visitor health and safety or the beach environment, it/they must be treated as major non - compliance.

When multiple non-compliances occur, the beach is given ten days in which to comply fully with all criteria, the flag is withdrawn until all the problems are rectified, and the national and international websites are updated accordingly.

3. **Major non-compliance** occurs when the beach does not comply with one or several criteria, with a consequence for the health and safety of the beach user or to the environment, as well as the general perception of the beach and therefore the Programme.

When detecting a major non-compliance, the flag is withdrawn immediately and for the rest of the season. The beach information board must clearly indicate that the Blue Flag award has been withdrawn. The national and international websites are updated accordingly.

In all cases of non-compliance, the National Operator must immediately inform the local authority/beach operator about the observed areas of non-compliance. Information about the reason for a withdrawal of the flag must be posted clearly at the beach. The local authority/beach operator must inform the National Operator of re-compliance with the criteria and present the appropriate documentation needed. The flag can then be raised at the beach again. The National Operator should also consider a follow-up control visit to check that the beach does comply. In the event that the local authority/beach operator does not ensure and document re-compliance with the criteria within ten days, the National Operator must ensure that the Blue Flag is withdrawn for the rest of the season at the beach.

In the event that conditions on the beach change and the Blue Flag has to be temporarily withdrawn, e.g. when climatic events cause damage to the beach or an emergency arises, the beach management must inform the National Operator that the Blue Flag has been temporarily withdrawn and the national and international websites must be updated accordingly.

Apart from updating the national and international Blue Flag websites of the status of the beach, the National Operator must inform the Blue Flag International Head Office about the non-compliance. If the non-compliance is noted by an international controller, the National Operator has to give feedback to the Blue Flag International Head Office within 30 days.

The applicant for the Blue Flag award is the authority charged with responsibility for the beach. This may be a local municipality, private hotel, national park, or private beach operator. A beach may be eligible for the Blue Flag award if it is legally designated as a bathing area and it has the necessary facilities and services to comply with the Blue Flag criteria.

A beach must be accessible to all (regardless of age, gender, political views, religion) in order to be eligible for the Blue Flag award. It is preferable that beach users be granted free access to a Blue Flag beach, i.e. to use the beach and its facilities without paying a fee. Blue Flag, however, recognises that at some beaches, e.g. private beaches, members of the public are charged a small, reasonable fee to access the beach. Other payments may be levied for services in the area, e.g. for parking or hiring of equipment, but have to stay within the reasonable limits. If a beach wishes to have an entry fee higher than 30 US dollars, it must apply for a dispensation case to the International Jury.

FEE, and the National Operator in a country, reserve the right to refuse or withdraw the Blue Flag award from any beach where the local authority/beach operator is responsible for violations of national environmental regulations or otherwise acts in discord with the objectives and spirit of the Blue Flag Programme. Blue Flag beaches are subject to announced and unannounced control visits by the National Operator and FEE International.

ENVIRONMENTAL EDUCATION AND INFORMATION

Each beach must provide at least five environmental education activities to the public, preferably during its Blue Flag season. It is possible for beaches managed by the same municipality to provide the same five environmental education activities.

Each beach must have at least one Blue Flag information board in place, containing all the information required by the criteria listed below. For long beaches, it is recommended that more than one Blue Flag information boards are installed (approximately one every 500 metres). All Blue Flag information boards must follow national standards with respect to information, content and design. These Blue Flag information boards must be in place at all Blue Flag beaches.

Criterion 1. Information about the Blue Flag Programme must be displayed.

Information about the Blue Flag Programme must be displayed on the Blue Flag information board. The correct Blue Flag logo must be used, in accordance with the FEE branding guidelines. The essence of each of the four categories of the Blue Flag criteria must be explained in this information. The length of the Blue Flag season must also be included.

The information could also be posted at other locations, e.g. at major access points, lifeguard stations, other beach facilities, or in parking areas. Tourist information offices should also have information about the Blue Flag Programme.

Contact details for the local, national and international Blue Flag representatives must be posted as well.

In areas of international tourism, it is recommended that the information be provided in relevant languages.

In the event that the Blue Flag is temporarily withdrawn, a relevant notice must be posted at the beach informing the public as to the reasons why the flag was withdrawn.

Blue Flag beaches could promote the Green Key Programme as another eco-label run by FEE with a message such as: "Along with the Blue Flag, the Foundation for Environmental Education also develops another eco-label for various tourism enterprises: Green Key. Find more information at: www.greenkey.global (or the national Green key website of the country)"

Appendix B provides an example of how the Blue Flag information can be presented.

IMPERATIVE CRITERION	GUIDELINE CRITERION
All regions	

Criterion 2. Environmental education activities must be offered and promoted to beach users.

Environmental education activities promote the aims of the Blue Flag Programme by:

- increasing the awareness of, and care for, the local environment by recreational users and residents.
- training personnel and tourist service providers in environmental matters and best practices.
- encouraging the participation of local stakeholders in environmental management within the area.

- promoting sustainable recreation and tourism in the area.
- promoting the sharing of ideas and efforts between the Blue Flag Programme and other FEE Programmes (YRE, LEAF, Eco-Schools and Green Key).

The planned environmental education activities for the coming season must be included in the application documents, and so must a report on activities carried out during the previous Blue Flag season (if applicable).
